Adroddiad i'r Cyngor Llawn

Dyddiad y cyfarfod 18 Mai 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog Y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd

Awdur yr adroddiad Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd

Teitl Recriwtio Prif Weithredwr 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn sôn am y broses recriwtio sydd angen ei chwblhau er mwyn recriwtio Prif Weithredwr newydd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I geisio cymeradwyaeth gan y Cyngor i recriwtio i rôl y Prif Weithredwr a chytuno ar y camau i'w cymryd yn y broses recriwtio. Mae hyn yn cynnwys y pecyn tâl a gynigir.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cytuno i recriwtio Prif Weithredwr newydd
3.2. Bod y Cyngor yn cytuno ar y pecyn tâl arfaethedig
3.3. Bod y Cyngor yn cytuno ar y pecyn recriwtio
3.4. Bod y Cyngor yn cytuno ar y broses recriwtio

4. Manylion yr adroddiad

4.1. ***Cefndir***

Mae swydd y Prif Weithredwr wedi bod yn wag ers 7 Ebrill 2021. Bu'r Prif Weithredwr blaenorol yn y swydd am bron i 3 blynedd.

Mae gan swydd y Prif Weithredwr gyfrifoldebau statudol fel Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig, sy'n ofynnol o dan adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, ac fe'i benodir hefyd i rôl Swyddog Canlyniadau a Swyddog Cofrestru Etholiadol.

Mae'n hanfodol fod y trefniadau ar gyfer y broses recriwtio i lenwi'r swydd hon yn cael eu cytuno a'u rhoi ar waith ar fyrder er mwyn sicrhau bod gan yr Awdurdod drefniadau rheoli a llywodraethu cadarn yn eu lle yn dilyn ymadawiad y Prif Weithredwr.

4.2. ***Tâl***

Mae pecyn cyflog presennol y Prif Swyddog Gweithredol fel a ganlyn: -

- Graddfa Gyflog sy'n cynnwys 3 phwynt cynyddrannol:

  £136,312
  £134,268
  £132,254

- Costau Adleoli hyd at £8000 yn unol â pholisi'r Cyngor
- Contract cyflogaeth parhaol
- Aelodaeth o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Ffioedd Swyddog Canlyniadau
- 30 diwrnod o wyliau blynyddol a 2 ddiwrnod statudol ychwanegol a gwyliau banc

Cafodd yr Uwch Banel Tâl gyfarfod ar 22 Ebrill 2021 i adolygu'r pecyn tâl ar gyfer y Prif Weithredwr. Dengys y data marchnad cymharol a roddwyd i'r panel ac sydd ynghlwm yn Atodiad A mai cyflog Prif Weithredwr Sir Ddinbych yw'r 2^{il} uchaf, yn seiliedig ar y 6 Awdurdod yng Ngogledd Cymru.

Ar sail y wybodaeth hon, daeth y Panel Tâl i'r casgliad fod y pecyn tâl yn briodol ac nad oedd angen cymryd camau pellach.

4.3. ***Sefyllfa Gyfreithiol***

Yn unol â Rheoliadau Rheolau Sefydlog (Cymru) (Diwygio) 2014, mae'n ofynnol i swyddi â chyflogau dros £100,000, sydd am gyfnod o 12 mis neu hwy, gael eu hysbysebu'n allanol.

Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor o ran recriwtio Prif Swyddogion wedi'i gynnwys yn Rheolau'r Weithdrefn Cyflogi Swyddogion a amlinellir yn Rhan 11 y Cyfansoddiad. Mae'n datgan mai'r Cyngor Llawn a fydd yn penodi'r Prif Weithredwr.

Fel rhan o'r broses, bydd Panel Penodiadau Arbennig yn cael ei sefydlu a fydd yn gyfrifol am lunio rhestr fer o ymgeiswyr i gael eu cyfweld ac asesu pa mor addas ydyn nhw ar gyfer y swydd drwy broses asesu a chyfweliadau. Yn dilyn hyn, bydd y Panel Penodiadau Arbennig yn cyflwyno rhestr fer o ymgeiswyr addas i'r Cyngor Llawn. Ar sail cyfweliad a chyflwyniad gan bob ymgeisydd i'r Cyngor Llawn, bydd y Cyngor Llawn yn penderfynu pwy a benodir i'r rôl.

4.4. ***Panel Penodiadau Arbennig***

Argymhellir y dylai'r Panel Penodiadau Arbennig gynnwys 7 aelod a'i fod yn banel gwleidyddol gytbwys a gaiff ei gadeirio gan yr Arweinydd, a bydd yn cynnwys uchafswm o 2 Aelod Cabinet arall. Cefnogir y Panel gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd a Rheolwr y Gwasanaethau AD.

Gofynnir i'r Arweinwyr Grŵp enwebu Aelodau ar gyfer y Panel ac anfonir cais ffurfiol am enwebiadau yn dilyn y Cyngor Llawn.

4.5. ***Rheoli'r Broses***

Argymhellir y dylai'r ymgyrch recriwtio gael ei rheoli'n fewnol gan Reolwr y Gwasanaethau AD gyda chefnogaeth gan gwmni allanol i gynnal rhai o'r asesiadau o bell. Byddai hyn yn golygu na fyddai angen penodi ymgynghorwyr allanol i gynnal y broses.

4.6. ***Y Broses Recriwtio***

4.6.1. Pecyn Cais am Swydd

Cafodd y swydd-ddisgrifiad presennol ar gyfer rôl y Prif Weithredwr ei ddiweddaru ddiwethaf yn ystod yr Adolygiad o'r Uwch Arweinyddiaeth ym mis Ebrill 2016 ac mae hyn yn ffurfio rhan o'r Pecyn Recriwtio drafft yn Atodiad B. Argymhellir y dylai'r Cyngor gytuno ar y Pecyn Recriwtio a dirprwyo cyfrifoldeb i awdurdodi unrhyw fân newidiadau i'r dogfennau hyn i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd.

4.6.2. Ymgyrch Hysbysebu

Yn y gorffennol, arferai'r Cyngor gomisiynu ymgynghorydd recriwtio i gynnal chwiliad gweithredol wrth recriwtio ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Chwiliad gweithredol yw'r broses lle byddai ymgynghorwyr sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod yn mynd ati'n rhagweithiol i ganfod ymgeiswyr posibl ar gyfer swydd y Prif Weithredwr ac yna'n cysylltu â nhw i'w gwahodd i wneud cais am y rôl. Bu hyn yn llwyddiannus yn y gorffennol, serch hynny, mae'n cymryd llawer o amser ac yn gostus.

Yn ei le, argymhellir y dylid cynnal ymgyrch hysbysebu ar gyfer recriwtio, gyda chefnogaeth gan y Tîm Cyfathrebu a Marchnata, a fyddai'n cynnwys hysbysebu yn adran swyddi'r Guardian sy'n cynnwys hysbysebu ar-lein a hysbysebu wedi'i dargedu; mewn cyhoeddiadau cenedlaethol a lleol allweddol eraill e.e. MJ; LinkedIn,Golwg, a thrwy ficrosafle pwrpasol ar Wefan Sir Ddinbych. Y nod fyddai ei gadw'n fyw gan osod nodiadau atgoffa rheolaidd yn ystod y 4 wythnos. Ynghlwm yn Atodiad C ceir cynllun manwl gyda therfynau amser.

4.6.3. Ffurflen Gais

Bydd y ffurflen gais yn ffurflen bwrpasol a fydd yn cynnwys, yn ogystal â'r wybodaeth bersonol sylfaenol, hanes cyflogaeth ac addysg:

4.6.3.1. Cwestiynau'n seiliedig ar gymhwysedd (300 gair yr un)

Bydd cwestiynau'n seiliedig ar gymhwysedd ynghylch Arweinyddiaeth, Newid/Gwelliant Parhaus; Gweithio Mewn Partneriaeth a bydd disgwyl i'r ymgeisydd eu cwblhau drwy gyfeirio at brofiad diweddar.

4.6.3.2. Geirdaon

Bydd gofyn i'r ymgeiswyr ddarparu geirdaon ysgrifenedig gan eu 3 chyflogwr diwethaf.

I'r ymgeiswyr llwyddiannus, bydd yr Arweinydd a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd yn cynnal trafodaeth am 30 munud gyda'r canolwr o'r cyflogwr presennol.

4.6.3.3. Ymarfer ar gyfer Llunio Rhestr Hir (1500 gair)

Fel rhan o'r ffurflen gais, bydd disgwyl i'r ymgeiswyr ysgrifennu adroddiad byr ar gwestiwn a osodir ymlaen llaw.

4.6.3.4. Datganiad Ategol (1500 gair)

4.7. **Llunio rhestr hir**

Y cam cyntaf fydd nodi pa ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y rôl er mwyn llunio'r rhestr hir. Y nod fydd canfod 4-6 ymgeisydd addas o'r rhestr hir i'w gwahodd am gyfweliad. Defnyddir yr ymarfer ar gyfer llunio rhestr hir yn 4.6.3.3 i lunio rhestr fer o'r rhestr hir.

4.8. **Ymchwilio**

AD / tîm y we i wneud gwaith ymchwil ar bresenoldeb yr ymgeiswyr ar-lein er enghraifft ar y Cyfryngau cymdeithasol, LinkedIn, chwiliadau google, gwefannau ar gyfer cyflogwyr presennol/blaenorol, gweddarllediadau sydd ar gael.

4.9. **Asesiadau**

Cyn y Dyddiau Asesu byddai disgwyl i'r ymgeiswyr gwblhau'r asesiadau ar-lein canlynol:

- SHL OPQ – Adroddiad Arweinyddiaeth
- LJI/Watson Glazier

4.10. **Y Ganolfan Asesu**

Detholiad o asesiadau i'w cwblhau sy'n asesu gallu'r ymgeiswyr i weithio dan bwysau, eu hymagwedd, eu gallu i ymateb i faterion dieithr, proffesiynoldeb, gwytnwch a gwybodaeth. Trafodwyd enghreifftiau o asesiadau posibl yng nghyfarfod briffio'r Cyngor. Argymhellir y dylai'r Cyngor ddirprwyo'r cyfrifoldeb dros ddewis yr asesiadau terfynol i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid ac Effeithlonrwydd.

4.11. **Cyngor Llawn**

Cyflwyniad 15 munud o hyd wedi'i gynllunio ymlaen llaw i roi cyflwyniad am eu hunain, eu cefndir a pham maen nhw wedi ymgeisio am y swydd.

Dim cwestiynau gosod ar gyfer y Cyngor Llawn ond trafodaeth gyda'r ymgeisydd am 30 munud lle bydd cyfle i bob grŵp gwleidyddol ofyn 2/3 cwestiwn yr un.

Bydd union fformat y cyflwyniad a roddir i'r Cyngor Llawn yn cael ei bennu'n nes at yr amser, gan ystyried Rheolau Llywodraeth Cymru o ran Covid.

4.12. **Llinell Amser**

Cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i'r broses recriwtio a'r pecyn tâl	18 Mai 2021
Hysbysebu'r swydd	1 Mehefin
Dyddiad Cau	30 Mehefin
Llunio rhestr hir, asesu, llunio rhestr fer	Yr wythnos yn dechrau 5 Gorffennaf
Asesiadau Ar-lein/O bell	Yr wythnos yn dechrau 12 Gorffennaf
Y Ganolfan Asesu a Chyfweliadau	20 / 21 Gorffennaf
Cyngor Llawn	22 Gorffennaf

4.13. **Gwerthusiad Perfformiad**

Panel gwleidyddol gytbwys sy'n cynnwys 5 aelod i gael eu penodi er mwyn rheoli perfformiad y Prif Weithredwr. Eu rôl fyddai:

- Cynnal adolygiad yn ystod y cyfnod prawf ar ôl 3 a 5 mis
- Gosod amcanion ar gyfer y Prif Weithredwr ar ddiwedd y cyfnod prawf o 6 mis
- Cynnal adolygiadau perfformiad ffurfiol (ar ôl 12 mis, 18 mis, 24 mis ac yn flynyddol wedi hynny)
- Yr Arweinydd i gynnal cyfarfodydd 1-1 misol a fydd yn ffurfio rhan o'r adolygiadau yn ystod y cyfnod prawf a'r gwerthusiadau perfformiad.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau arwain a llywodraethu cadarn er mwyn cyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r ymgyrch recriwtio ac asesiadau'n debygol o gostio tua £10,000.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les gan fod y cynigion yn unol â'r polisïau y cytunwyd arnynt.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â'r Cabinet ynghylch y broses ac mae'r Panel Tâl wedi ystyried y pecyn tâl ar gyfer y swydd. Rhoddwyd y cyflwyniad i'r Arweinwyr Grŵp ac un o Weithdai'r Cyngor.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Yn amlwg bydd cyllideb sylfaenol ar gael i gyflogi'r sawl a benodir. Bydd y trefniadau dros dro yn golygu y bydd tanwariant yn ystod y flwyddyn a dylai hyn fod yn fwy na digon i dalu am unrhyw gostau recriwtio. Cefnogir argymhellion yr adroddiad.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Bydd yn risg i'r Cyngor os na fydd capasiti digonol ar lefel yr uwch reolwyr a dim digon o wybodaeth arbenigol i arwain y sefydliad.

10.2. Mae risg y gallai'r ymgyrch recriwtio fod yn aflwyddiannus. Er hyn, gobeithir bod y pecyn tâl yn ddigon deniadol i ddenu carfan dda o ymgeiswyr.

10.3. Mae risg y gallai'r ymgyrch recriwtio ar gyfer Prif Weithredwr mewn awdurdod cyfagos effeithio ar yr ymgyrch yn Sir Ddinbych.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 – pŵer i benodi staff

11.2. Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 – yr angen i ddynodi Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig